OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1095 (Cy. 228)

# PYSGODFEYDD MÔR, CYMRU

## Gorchymyn Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16 Hydref 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Hydref 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *20 Tachwedd 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 3(1), 5(1), 5(6), 6(1), 6(1A) a 15(3) o Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967(**1**), a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), ac adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**) ("Deddf 1972"), a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(**4**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf 1972 mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(**5**).

(**1**) 1967 p. 84 ("Deddf 1967"). Diwygiwyd adran 3(1) gan erthygl 4 o O.S. 1999/1820 a pharagraff 43(1) a (2)(b) o Ran 1 o Atodlen 2 iddo. Amnewidiwyd adran 5(1) gan adran 198(1) a (2) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p. 23) ("Deddf 2009"). *Gweler* adran 5(9) o Ddeddf 1967 am ddiffiniad o "the appropriate national authority". Mewnosodwyd adran 5(9) gan adran 198(3) o Ddeddf 2009 ac fe'i diwygiwyd gan erthygl 4(2) a (4) o O.S. 2010/760. Diwygiwyd adran 5(6) gan adran 22(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29) ac adran 201 o Ddeddf 2009 a pharagraffau 3(1) a 4(a), (b) ac (c) o Atodlen 15 iddi. Diwygiwyd adran 6(1) gan erthygl 4 o O.S. 1999/1820 a pharagraff 43(1) a (6)(a) o Ran 1 o Atodlen 2 iddo. Mewnosodwyd adran 6(1A) gan adran 23(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 ac fe'i diwygiwyd gan erthygl 4 o O.S. 1999/1820 a pharagraff 43(1) a (2)(b) o Ran 1 o Atodlen 2 iddo. Amnewidiwyd adran 15(3) gan adran 22(1) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 (p. 77) a Rhan 2 o Atodlen 1 iddi, ac fe'i diwygiwyd gan adran 9(1) o Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p. 86), a pharagraff 16(1) o Atodlen 2 iddi, ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan erthygl 4 o O.S. 1999/1820 a pharagraffau 43(1) a (2)(b) o Atodlen 2 iddo. *Gweler* adran 22(2) o Ddeddf 1967 am ddiffiniad o "the Ministers" at ddibenion adrannau 3, 5, 6 a 15(3) o'r Ddeddf honno. Diwygiwyd adran 22(2) gan adrannau 19(2)(d), 45(a), (b) ac (c) a 46(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981, a Rhan 2 o Atodlen 5 iddi, a chan erthygl 4 o O.S. 1999/1820, a pharagraff 43(1) a (12) o Ran 1 a Rhan 4 o Atodlen 2 iddo.

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adrannau 3, 5, 6 a 15 o Ddeddf 1967 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38)) i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru (gan weithredu ar y cyd ag unrhyw Weinidog y Goron y maent yn arferadwy ganddo mewn perthynas ag adran 15(3)). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny a oedd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ("Deddf 2006") a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Yn rhinwedd erthyglau 4(1)(b) a 5(1)(b) o Orchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760), cafodd swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adrannau 3, 5, 6 a 15 o Ddeddf 1967 eu trosglwyddo ymhellach i Weinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â pharth Cymru (gan weithredu ar y cyd ag unrhyw Weinidog y Goron y maent yn arferadwy ganddo mewn perthynas ag adran 15(3)).

(**3**) 1972 p. 68; diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mae wedi ei diddymu yn rhagolygol gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) o'r diwrnod ymadael (*gweler* adran 20 o'r Ddeddf honno).

(**4**) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 a Rhan 1 o'r Atodlen iddi a chan erthygl 3 o O.S. 2007/1388 a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddo. Mae wedi ei ddiddymu yn rhagolygol gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 o'r diwrnod ymadael (*gweler* adran 20 o'r Ddeddf honno).

(**5**) O.S. 2010/2690.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn, yn Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006(**6**), yng Ngorchymyn Cŵn Gleision (Gwahardd eu Pysgota) (Cymru) 2008(**7**) neu yng Ngorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys 2008(**8**), at y Rheoliadau a ganlyn gael ei ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd—

(a) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 517/2008 dyddiedig 10 Mehefin 2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cygnor (EC) Rhif 850/98 o ran penderfynu ar faint rhwyllau ac asesu trwch cortynnau rhwydi pysgota(**9**), a

(b) Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009 dyddiedig 20 Tachwedd 2009 sy'n sefydlu system o reolaeth Gymunedol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r polisi pysgodfeydd cyffredin(**10**)

### Enwi, cymhwyso, dehongli a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018.

(2) Ac eithrio fel a ddarperir ym mharagraff (3), mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru a pharth Cymru.

(3) Mae erthyglau 3 a 4 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn yr erthygl hon, mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" ac mae i "parth Cymru" yr ystyr a roddir i "Welsh zone" yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**11**).

(5) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Tachwedd 2018.

### Diwygiadau i Reoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006(**12**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1 (enwi, cychwyn a chymhwyso), ym mharagraff (2), ar ôl "Chymru" mewnosoder "a pharth Cymru".

(3) Yn rheoliad 2 (dehongli)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer y diffiniad o "Erthygl 9";

(ii) hepgorer y diffiniad o "y Rheoliad CFP";

(iii) mewnosoder yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor—

(**6**) O.S. 2006/1495 (Cy. 145).
(**7**) O.S. 2008/1438 (Cy. 150).
(**8**) O.S. 2008/1811 (Cy. 175).
(**9**) OJ Rhif L 151, 11.6.2008, t. 5.
(**10**) OJ Rhif L 343, 22.12.2009, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2015/812 (OJ Rhif L 133, 29.5.2015, t. 1).
(**11**) 2006 p. 32. Mae diwygiadau i adran 158 nad ydynt yn berthnasol i'r diffiniad hwn. At ddibenion y diffiniad o "Wales" yn adran 158(1) o Ddeddf 2006, y ffin rhwng y rhannau hynny o'r môr o fewn Aberoedd Hafren a Dyfrdwy sydd i'w trin fel rhai sy'n gyfagos i Gymru a'r rhai nad ydynt i'w trin felly yw, ym mhob achos, llinell a dynnir rhwng y cyfesurynnau a nodir yn Atodlen 3 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf 2006, a pharagraff 26 o Atodlen 11 iddi, mae O.S. 1999/672 yn parhau i gael effaith. Mewnosodwyd y diffiniad o "Welsh zone" yn adran 158(1) gan adran 43 o Ddeddf 2009. Pennir parth Cymru yng Ngorchymyn Parth Cymru (Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau) 2010 (O.S. 2010/760).
(**12**) O.S. 2006/1495 (Cy. 145).

"mae i "Cymru" yr un ystyr ag a roddir i "Wales" yn rhinwedd adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;";

"mae i "parth Cymru" yr un ystyr ag a roddir i "Welsh zone" yn rhinwedd adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;";

"ystyr "y Rheoliad Rheolaeth" ("*the Control Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009 dyddiedig 20 Tachwedd 2009 sy'n sefydlu system o reolaeth Gymunedol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau'r polisi pysgodfeydd cyffredin, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.";

(iv) yn y diffiniad o "darpariaethau cywerth", yn lle "Erthygl 9, neu Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP" rhodder "Pennod II o Deitl V"; a

(v) yn y diffiniad o "pysgod", yn lle "mae Erthygl 9 neu Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP" rhodder "mae'r Rheoliad Rheolaeth";

(b) yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) Mae i'r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn, nad ydynt wedi eu diffinio ym mharagraff (1) na (2) ac sy'n ymddangos yn y Rheoliad Rheolaeth, yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd iddynt at ddibenion y Rheoliad Rheolaeth.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at Erthygl yn golygu Erthygl o'r Rheoliad Rheolaeth, ac mae cyfeiriad at Bennod II o Deitl V yn golygu Pennod II o Deitl V o'r Rheoliad Rheolaeth."

(4) Yn rheoliad 3 (cofrestru gwerthwyr pysgod)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Erthygl 9" rhodder "Pennod II o Deitl V (Rheoli marchnata: gweithgareddau ar ôl glanio)";

(b) ym mharagraff (4), yn lle "Erthygl 9, Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP" rhodder "Erthyglau 59, 62, 63, 64, 66 a 67"; ac

(c) ym mharagraff (8)(b) yn lle "Erthygl 9, Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP" rhodder "Erthyglau 59, 62, 63, 64, 66 neu 67".

(5) Yn rheoliad 5 (cadw cofnodion gan werthwr pysgod cofrestredig), ym mharagraff (3), yn lle "hyd ddiwedd yr ail flwyddyn galendr yn dilyn y gwerthiant hwnnw" rhodder "am 3 blynedd".

(6) Yn rheoliad 6 (dynodi safleoedd arwerthu pysgod)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Erthygl 9 ac Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP" rhodder "Pennod II o Deitl V";

(b) ym mharagraff (3), yn lle "gydag Erthygl 9, Erthygl 22 y Rheoliad CFP" rhodder "gyda Phennod II o Deitl V"; ac

(c) ym mharagraff (7)(b), yn lle "Erthygl 9, Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP" rhodder "Pennod II o Deitl V".

(7) Yn rheoliad 7 (cofrestru prynwyr pysgod)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "Erthygl 22(2)(b) o'r Rheoliad CFP" rhodder "Erthygl 59";

(b) ym mharagraff (3), yn lle "Erthygl 9, Erthygl 22 y Rheoliad CFP" rhodder "Erthyglau 62, 63, 64, 66 a 67"; ac

(c) ym mharagraff (7)(b), yn lle "Erthygl 9, Erthygl 22 o'r Rheoliad CFP" rhodder "Erthyglau 62, 63, 64, 66 neu 67".

(8) Yn lle rheoliad 8 (prynu pysgod gan brynwr anghofrestredig) rhodder—

"**8.** Bydd unrhyw berson sy'n prynu pysgod yn groes i Erthygl 59(2) yn euog o drosedd, oni bai bod yr esemptiad yn Erthygl 59(3) yn gymwys."

(9) Yn rheoliad 9 (cadw cofnodion gan brynwr pysgod cofrestredig), ym mharagraff (3), yn lle "hyd ddiwedd yr ail flwyddyn galendr yn dilyn y gwerthiant hwnnw" rhodder ", am 3 blynedd".

(10) Yn rheoliad 13 (pwerau swyddogion pysgodfeydd môr Prydain mewn cysylltiad â chychod pysgota), ym mharagraff (1), ar ôl "Cymru" mewnosoder "a pharth Cymru".

(11) Yn lle rheoliad 15 (pwerau swyddogion pysgod môr Prydain i atafaelu pysgod) rhodder—

> "**15.** Caiff unrhyw swyddog pysgod môr Prydain atafaelu unrhyw bysgod (gan gynnwys unrhyw gynhwysydd sy'n dal y pysgod) y mae gan y swyddog achos rhesymol dros amau y cyflawnwyd trosedd mewn cysylltiad â hwy o dan y Rheoliadau hyn neu o dan unrhyw ddarpariaeth gywerth."

(12) Yn Atodlen 1 (amodau perthnasol i gofrestriadau gwerthwyr pysgod), ym mharagraff 2, yn lle "Erthygl 9" rhodder "Erthyglau 62 i 64".

(13) Yn Atodlen 3 (amodau perthnasol i gofrestriadau prynwyr pysgod), ym mharagraff 2, yn lle "Erthygl 22(2) o'r Rheoliad Cyngor (EC) 2371/2002" rhodder "Erthyglau 62 i 64".

**Diwygiadau i Orchymyn Cŵn Gleision (Gwahardd eu Pysgota) (Cymru) 2008**

**3.** Yng Ngorchymyn Cŵn Gleision (Gwahardd eu Pysgota) (Cymru) 2008(**13**), yn erthygl 1 (enwi, cychwyn a chymhwyso), yn lle paragraff (3) rhodder—

> "(3) Nid yw'r Gorchymyn hwn ond yn gymwys i gychod pysgota Prydeinig sydd naill ai—
>
> (a) wedi eu cofrestru yn y Deyrnas Unedig o dan Ran 2 o Ddeddf Llongau Masnach 1995(**14**); neu
>
> (b) o dan berchnogaeth lwyr personau sy'n gymwys i berchnogi llongau Prydeinig at ddibenion y Rhan honno o'r Ddeddf honno."

**Diwygiadau i Orchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2008**

**4.** Yng Ngorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2008(**15**), yn erthygl 2 (dehongli), ym mharagraff (2), yn lle'r geiriau o "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 129/2003" hyd at y diwedd, rhodder "Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 517/2008 dyddiedig 10 Mehefin 2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cygor (EC) Rhif 850/98 o ran penderfynu ar faint rhwyllau ac asesu trwch cortynnau rhwydi pysgota".

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

16 Hydref 2018

(**13**) O.S. 2008/1438 (Cy. 150).
(**14**) 1995 p. 21.
(**15**) O.S. 2008/1811 (Cy. 175); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2008/3144 (Cy. 279) a 2011/1043.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rheoliadau Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod a Dynodi Safleoedd Arwerthu Pysgod (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1495 (Cy. 145)) er mwyn cywiro gwallau a diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth berthnasol yr UE. Mae hefyd yn diwygio Gorchymyn Cŵn Gleision (Gwahardd eu Pysgota) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1438 (Cy. 150)) a Gorchymyn Rhwydi Pysgota Perdys (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1811 (Cy. 175)) er mwyn diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth berthnasol yr UE.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.